**Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** **HSS-01-03(p.3)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **Dydd Mercher, 22 Ionawr 2003** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru** |
| **Teitl:** | **Llwybrau i Wasanaethau Cymdeithasol Gwell yng Nghymru - Ail Adroddiad Trosolwg o Adolygiadau Ar y Cyd yng Nghymru** |

## Pwrpas

1. Mae'r papur hwn yn cyflwyno trafodaeth ar yr adroddiad cydadolygu *Llwybrau i Wasanaethau Cymdeithasol Gwell yng Nghymru*, a gyhoeddwyd ac a ddosbarthwyd i aelodau ym mis Hydref 2002.

## Crynodeb

2. Mae'r adroddiad yn rhoi crynodeb o ganfyddiadau y cydadolygiadau yng Nghymru ers cyhoeddi'r adroddiad trosolwg cyntaf ym mis Hydref 2000. Mae hefyd yn adolygu'r datblygiadau yn y deg awdurdod cyntaf yn y rhaglen ers dechrau'r cydadolygiadau.

3. Bydd Sue Mead, Cyfarwyddwr y tîm cydadolygu, yn rhoi cyflwyniad ar yr adroddiad.

## Cefndir

4. Cynhelir y cydadolygiadau o wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol gan dîm arbennig ar ran Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a'r Comisiwn Archwilio, yn unol ag adran 37 o Ddeddf y Comisiwn Archwilio 1998. Mae hyn yn galluogi'r Comisiwn Archwilio i gynorthwyo Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn unrhyw astudiaeth a gynllunir i wella economi, effeithlonrwydd, effeithiolrwydd ac ansawdd perfformiad wrth i awdurdodau lleol ddarparu swyddogaethau'r gwasanaethau cymdeithasol. Maent yn rhan o raglen arolygu'r Arolygiaeth yng Nghymru.

5. Dechreuodd cydadolygiadau yng Nghymru yn 1998 a bydd pob awdurdod lleol wedi ei gynnwys erbyn diwedd 2003. Cafodd canlyniadau y chwe adolygiad cyntaf eu crynhoi yn yr adroddiad, *Dysgu'r Gwersi*, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2000 ac sy'n cynnig trosolwg. Mae'r adroddiad presennol, *Llwybrau i Wasanaethau Cymdeithasol Gwell yng Nghymru*, yn rhoi crynodeb o ganfyddiadau yr wyth adolygiad a gyhoeddwyd rhwng y cyfnod hwnnw a mis Hydref 2002. Mae hefyd yn edrych ar ddatblygiad yn y deg awdurdod cyntaf wedi eu cydadolygiadau.

## Materion i'w Hystyried

6. Ni farnwyd bod yr un awdurdod lleol yng Nghymru eto yn darparu gwasanaethau cymdeithasol yn dda i'r rhan fwyaf o bobl. O'r wyth cyngor a adolygwyd, barnwyd bod chwech ohonynt yn gwasanaethu rhai pobl yn dda. Barnwyd bod y rhagolygon o ran gwella yn addawol i ddau ohonynt, ond bod rhagolygon y gweddill yn ansicr. Barnwyd nad oedd un cyngor yn gwasanaethu pobl yn dda, a bod y rhagolygon yn ansicr. Barnwyd bod y llall yn y categori isaf yn y ddau faes, sef nad oedd yn gwasanaethu pobl yn dda a'r rhagolygon yn wael. (Cafodd dau gydadolygiad pellach eu cyhoeddi ers hynny - un cyngor nad oedd yn gwasanaethu pobl yn dda a chyda rhagolygon gwael, a'r llall yn gwasanaethu rhai pobl yn dda gyda'r rhagolygon yn ansicr.)

7. Daw'r adroddiad i'r casgliad bod nifer o gynghorau yng Nghymru yn ei chael yn anodd i sefydlu gwasanaethau cymdeithasol cyson dda sy'n ymateb i anghenion a deisyfiadau modern. Mae gan gynghorau gwell nodweddion penodol:

- mae gwasanaethau cymdeithasol yn bwysig i arweinwyr gwleidyddol a chorfforaethol
- mae arweiniad a chyfeiriad amlwg i'r gwasanaeth
- mae'r gweithlu'n cael ei gynnwys yn yr hyn y mae'r Cyngor yn ceisio ei wneud ac yn cael cefnogaeth dda
- mae rhwydwaith rheoli modern yn datblygu sy'n trefnu bod y gweithlu, cyllid a systemau gwaith yn cyflawni'r hyn y cytunwyd arno i ddefnyddwyr gwasanaethau
- nid ydynt yn dymuno gweithio ar eu pennau eu hunain. Anogir partneriaethau gydag eraill i gomisiynu a chyflwyno gwasanaethau.

8. Gwelir yr un elfennau o lwyddiant yn y cynghorau hynny sydd wedi datblygu fwyaf ers y cydadolygiadau:

- arweiniad gwleidyddol a rheoli cryf, cydlynus a oedd yn ceisio datrys y broblem yn hytrach na rhoi bai
- ymrwymiad corfforaethol parhaus
- sefydlogrwydd y prif strwythurau a'r bobl allweddol
- capasiti rheoli gwell gyda lle i ganolbwyntio ar gynllunio, comisiynu a datblygu gydag eraill
- cynnwys staff o'r dechrau a pharhau i wneud hynny
- bod yn onest gyda defnyddwyr, gofalwyr a phartneriaid, heb geisio osgoi materion dadleuol.

9. Daw Pennod 4 i'r casgliad ei bod yn bosibl ailadeiladu ac ailgyfeirio y byd gofal cymdeithasol a newid y rhagolygon trwy i bobl weithredu yn lleol. Yr hyn a ddaw'n amlwg o'r astudiaeth hon o weithredu yn dilyn cydadolygiad yw bod arweiniad gwleidyddol a gweithredol mwy aeddfed i ofal cymdeithasol yn datblygu mewn cynghorau, gan gysylltu ymrwymiadau traddodiadol gwasanaethau cyhoeddus gyda'r traddodiad newydd o greu'r gwasanaeth gorau posibl ar gyfer y cyhoedd. Mae llawer mwy i'w wneud.

**Goblygiadau Ariannol**

10. Dim yn codi'n uniongyrchol o'r papur hwn.

**Themâu trawsbynciol**

11. Mae gan y trosolwg hwn o wasanaethau cymdeithasol negeseuon mwy cyffredinol i lywodraeth leol, sy'n arbennig o berthnasol i Raglen Cymru ar gyfer Gwella. Mae'r Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru yn gweithio gyda is-adrannau Llywodraeth Leol Llywodraeth Cynulliad Cymru, arolygiaethau ac archwilwyr eraill a chyda buddiannau llywodraeth leol i gyfuno ei rhaglen arolygu cystal â phosibl gyda Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella.

**Camau i'w Cymryd gan y Pwyllgor Pwnc**

12. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi a thrafod y papur.

**Jane Hutt**
**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Swyddog Cyswllt:** Richard Tebboth, Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, ffôn 029 2082 3197